Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council
Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd am 7yh Nos Fawrth 16/11/2021 drwy Zoom.
Minutes of the Full Council meeting held at 7pm Tuesday 16/11/2021 by Zoom.

Yn Bresennol/Present: Derek Owen, Enid Jones, Vic Ensor, Elfed Jones, Carys Davies, Lowri Jones, Brian Potter, Dei Owens, Cyng/Cllr Aled Morris Jones

Wrth Law/In attendance: Carli Evans Thau (Clerc/Clerk), Jacqui Evans (Cemaes Nature for All)

Ymddiheuriadau/Apologies: Dafydd Williams

1 Croeso/Welcome
Cadeiriwyd y cyfarfod gan Derek Owen a bu croesawu pawb oedd yn bresennol.
Derek Owen chaired the meeting and welcomed all present.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest
Enid Jones – cynllunio/planning

3 Nant y Scrwngi
Cafwyd ddiweddariad gan Jacqui Evans am sut oedd y prosiect yn datblygu. Nodwyd bod grwp llywio yn cael ei ffurfio a gofynnwyd i'r Cyngor benodi cynrychiolwyr. Gofynnwyd i Jacqui Evans rannu copio'r cyflwyniad a wnaed yn y diwrnod agored gyda'r cynghorwyr drwy ebost gan nodi byddai hyn yn ei gwneud yn haws iddynt weld a deall y cynlluniau sydd yn cael eu cynnig. Cadarnhawyd nad oedd pwll wedi ei gynnwys yn y prosiect er bod pwll yn ymddangos ar y darluniau cychwynnol ar gyfer y prosiect. Nodwyd bod y grwp yn dal i ddisgwyl cael caniatad ffurfiol gan CSYM i weithio ar eu tir.

Bu cytuno byddai Jacqui Evans yn tywys grwp o gynghorwyr o amgylch y safle bore Sul 21/11/2021 am 10 o'r gloch i esbonio'r cynlluniau ymhellach.

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi derbyn cais am arwyddion wiwerod goch ar gyfer y ffordd osgoi a'i bod wedi pasio'r cais ymlaen i CSYM ac i'r tri aelod lleol er gwybodaeth.

Bu diolch i Jacqui Evans am ei hamser a bu iddi adael y cyfarfod. Bu'r Cyngor benodi Lowri Jones, Elfed Jones a Derek Owen i'w cynrychioli ar y grwp llywio – y clerc i gadarnhau gyda Jacqui Evans.

Jacqui Evans gave an update on how the project was progressing. It was noted that a steering group was being formed and the Council was asked to appoint representatives. Jacqui Evans was asked to share a copy of the presentation made at the open day with councilors by email stating that this would make it easier for them to see and understand the plans being proposed. It was confirmed that no pool had been included in the project although a pool appeared on the initial drawings for the project. It was noted that the group was still awaiting formal permission from the IACC to work on their land.

It was agreed that Jacqui Evans would lead a group of councilors around the site on Sunday morning 21/11/2021 at 10 o'clock to explain the plans further.

The clerk confirmed that she had received a request for red squirrel signs for the bypass and had passed the application on to the IACC and the three local members for information.

Jacqui Evans was thanked for her time and left the meeting. The Council appointed Lowri Jones, Elfed Jones and Derek Owen to represent it on the steering group - the clerk to confirm with Jacqui Evans.

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf/Minutes of the Last Meeting
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, cynnig Carys Davies, eilio Enid Jones.
Minutes of the meeting were approved, proposed Carys Davies, seconded Enid Jones.

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters Arising from the Minutes
Dim/None

6 Diweddariadau/Updates

6.1 Cyllid a Personel/*Finance and Personnel*

Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod diwethaf gan Carys Davies. Cafwyd wybod bod materion cofrestrfa tir yn symud o'r diwedd, mae disgwyl i'r broses gymryd 6-12 mis arall. Nid oedd diweddariad am y gwaith brics,ond mae disgwyl gwybodaeth pellach gan CSYM yn fuan. Nid oedd gwybodaeth pellach gan CSYM chwaith am y fynwent. Cafwyd wybod bod trigolion Cae Derw wedi cytuno gosod diffirbiwleiddiwr ar eu heiddo. Cadarnhawyd bod rhodd ariannol wedi ei dderbyn tuag at brynnu dau o'r peiriannau ar gyfer toiledau'r traeth a'r pier. Bydd angen i'r Cyngor osod placiau i gydnabod y rhodd.

Bu'r pwyllgor argymell cyfrannu £500 i'r Ambiwlans Awyr yn dilyn derbyn cais am gefnogaeth. Ni fu gwrthwynebiad.

Cafwyd wybod bod canllaw ger Bonc y Mor angen sylw a bu cytuno cadarnhau manyldeb gwaith a chael prisiau am yr hyn oedd ei angen.

Bu diolch i Brian Potter am ei waith i sicrhau bod tystysgrifau diogelwch 10-12 Stryd Fawr yn eu lle.

Carys Davies summarised the last meeting. It was reported that land registry issues are finally moving forward, the process is expected to take another 6-12 months. There was no update on the brickworks, but further information from IACC is expected soon. The IACC also had no further information on the cemetery. It was reported that the residents of Cae Derw had agreed to install a defibrillator on their premises. It was confirmed that a monetary donation had been received towards the purchase of two of the machines for the beach and pier toilets. The Council will need to place plaques in recognition of the donation.

The committee recommended that £500 be donated to the Air Ambulance following a request for support. There were no objections.

It was reported that a guideline near Bonc y Mor was in need of attention and it had been agreed to confirm the detail of the works and obtain prices for what was required.

Brian Potter was thanked for his work in ensuring that 10-12 Stryd Fawr safety certificates were in place

6.2 Parciau a Mannau Agored/*Parks and Open Spaces*

Bu cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r materion wedi eu trafod eisioes. Cytuno byddai aelodau yn ymweld a'r bwrdd gwybodaeth ger y Stag ac adrodd yn ol gydag unrhyw welliannau a diweddariadau.

It was confirmed that most of the issues have already been discussed. Agreed that members would visit the information board near the Stag and report back with any improvements and updates.

6.3 Pwyllgor yr Harbwr/*Harbour Committee*

Cafwyd ddiweddariad gan Brian Potter yn dilyn cyfarfodydd diweddaraf y pwyllgor. Cadarnhawyd bydd Sion Corn yn ymweld a'r Harbwr 10/12/2021.

Brian Potter gave an update following the most recent committee meetings. It was confirmed that Santa will be visiting the Harbour 10/12/2021.

6.4 Partneriaeth – Port St Mary Partnership

Cafwyd grynodeb gan Lowri Jones yn dilyn cyfarfod anffufiol y pwyllgor. Gobeithir cyfarfod eto ddechrau mis Rhagfyr i ddatblygu ar dri thema sef treftadaeth, diwylliant a thraddodiadau.

Lowri Jones gave a summary following the committee's informal meeting. It is hoped to meet again at the beginning of December to develop on the three themes of heritage, culture and traditions.

6.5 Pwyllgorau Allanol/*External Meetings*

Dim/None

7 Cynllunio/Planning

7.1 Ceisiadau/*Applications*

Cyflwynwyd y ceisiadau cynllunio canlynol i'w hystyried. Cadarnhaodd y clerc bod y manylion wedi'i hafnon at yr holl aelodau cyn y cyfarfod.

The following planning applications were presented for consideration. The clerk confirmed that the details had been forwarded to all members prior to the meeting.

- 65 Sryd Fawr (HHP/2021/330) – dim gwrthwynebiad/no objection
- Fferm Arae Haul Porthwen Solar Farm (FPL/2021/244) – gwrthwynebu ar sail niferoedd a maint cerbydau yn teithio drwy'r pentref a diogelwch trigolion lleol. Vic Ensor i gydlynnu pryderon yr aelodau mewn datganiad a'i gylchredeg.

7.2 Penderfyniadau CSYM/*IACC Decisions*

Rhoddwyd gwybod i aelodau am benderfyniadau a ganlyn yr awdurdod cynllunio:
Members were informed of the planning authority's decisions as follows:

- Afallon, Castellior HHP/2021/352 – caniatad/approved
- Bron Wylfa VAR/2021/70 – caniatad/approved
- Inglewood, Cemaes HHP/2021/329 – caniatad/approved

7.3 Gorfodaeth/*Enforcement*

Dim diweddariad/No update

8 Sedd Wag / Vacant Seat

Cadarnhawyd bod cais am etholiad wedi ei gyflwyno i CSYM. Cafwyd grynodeb gan y clerc am y broses a'r trefniadau sydd i'w gynnal gan CSYM.

Cytuno cysylltu a CSYM i gadarnhau nad ydy Sion Williams wedi cydnabod na chwblhau'r datganiad derbyn swydd nac ymateb i unrhyw ebyst neu alwadau ffon felly nad yw ei benodiad yn aelod o'r Cyngor yn sefyll.

It was confirmed that an election request had been submitted to the IACC. The clerk summarised the process and arrangements to be undertaken by IACC.

Agreed to contact IACC to confirm that Sion Williams has not acknowledged or completed the declaration of acceptance of office or responded to any emails or telephone calls so that his appointment as a member of the Council did not stand.

9 Cyngrair Twrcelyn Alliance

Cafwyd wybod bod Aled Morris Jones wedi ei benodi yn gadeirydd y grwp. Bydd angen trafod a chymeradwyo cyfansoddiad y grwp ynghyd a chynrychiolaeth y Cyngor. Cytuno cynnwys eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.

It was reported that Aled Morris Jones had been appointed as chair of the group. The composition of the group and the Council's representation will need to be discussed and approved. Agreed to include an item on the agenda for the next meeting.

10 Cofnodion a diweddariadau cyfarfod 4/11/2021 Minutes and Updates from meeting

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod wedi eu dosbarthu i aelodau cyn y cyfarfod. Mae disgwyl cadarnhau dyddiad cyfarfod gyda Chris Hughes. Mae angen cadarnhau beth sydd yn bosib ym maes parcio pen pella'r traeth – y clerc i wirio dogfennau hanesyddol.

It was confirmed that the minutes of the meeting had been circulated to members in advance of the meeting. A meeting date with Chris Hughes is expected to be confirmed. Need to confirm what is possible in the far end car park - clerk to check historical documents.

11 Gohebiaeth/Correspondence

Nododd y clerc bod unrhyw ohebiaeth gyffredinol wedi'i hafnon at yr aelodau trwy e-bost wrth iddynt gael eu derbyn. Bu tynnu sylw at ymateb Un Llais Cymru i ymgynghoriad LLC ar ail gartrefi a bu cytuno ymateb yn eu cefnogi.

Bu tynnu sylw at broblemau parcio yn y stryd fawr a bod angen i'r wardeiniaud parcio ymweld yn fwy aml. Y clerc i gysylltu a'r adran briffyrdd i drefnu bod arwyddion cyfyngiadau parcio yn cael eu ail-gosod wedi gwaith yn y pentref.

The clerk noted that any items of general correspondence had been forwarded to members by email as received. Attention was drawn to One Voice Wales's response to a WG consultation on second homes, it was agreed to respond in support.

High street parking problems were highlighted noting that the parking wardens need to visit more frequently. The clerk to contact the highways department to arrange for the replacement of parking restriction signs after work in the village.

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf drwy gynhadledd fideo – 18/1/2022
The next meeting will be held by video conference – 18/1/2022

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30yh / *The meeting closed at 20.30pm*

Derek Owen
Cadeirydd/Chair
Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council